Cyngor Sir

CEREDIGION

CEREDIGION

County Council

# TALIADAU TAI YN ÔL DISGRESIWN – FFRAMWAITH TREFNIADOL

## Cyflwyniad

Bu Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o'r prosiect Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a roddwyd ar waith ledled Cymru gan y Clwb Diwygio Lles. Noddwyd y prosiect gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fe'i cefnogwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gan gydweithio ag 20 o'r 22 cyngor yng Nghymru, bu'r prosiect yn pwyso a mesur yr achos dros weinyddu'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) mewn modd mwy cyson, gan gydnabod bod natur y cynllun i bob pwrpas yn ddewisol. Yn ystod cyfnod y prosiect, lluniwyd fframwaith, strategaeth, llyfryn a ffurflen gais enghreifftiol.

**Fframwaith** – o ddilyn y fframwaith, bydd cynghorau'n mynd i'r afael â'r asesiad ariannol a'r ystyriaethau trefniadol cyffredinol sy'n rhannau angenrheidiol o'r cynllun mewn modd cyson. Yn ogystal, bydd ganddynt fframwaith a fydd yn caniatáu iddynt benderfynu pa fathau o sefyllfaoedd sy'n haeddu blaenoriaeth uchel, canolig ac isel, a bydd modd iddynt ei deilwra i ateb anghenion lleol.

**Strategaeth** – mae'n darparu fframwaith arfaethedig i sicrhau bod ymgeiswyr posibl, asiantaethau cynghori a grwpiau eraill â diddordeb yn gwybod am y cynllun TTD, a hynny heb godi'u disgwyliadau.

**Llyfryn a ffurflen gais enghreifftiol** – bwriedir i'r ffurflen gais gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol, ond mater i bob awdurdod yw llunio'i ffurflen ei hunan ar sail amgylchiadau lleol.

Drwy gyflwyno'r fframwaith trefniadol diwygiedig hwn, gallaf hefyd gadarnhau y gellir ystyried dyfarnu cyfandaliad o dan gynllun y TTD i gynorthwyo pobl â chostau symud h.y. i dalu rhent ymlaen llaw, blaendal neu gostau symud dodrefn ac ati. Amlinellir y meini prawf llym y bydd yn rhaid i bobl eu bodloni i gael cymorth â'r costau hyn yn Atodiad 5.

## <u>CYNNWYS</u> — Tudalennau


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Y Fframwaith** | **2 i 6** |
| 2. | **Atodiad 1 Pwy sy'n gymwys a'r prosesau hawlio, penderfynu a datrys anghydfod** | **7 i 8** |
| 3. | **Atodiad 2 TTD a phobl nad ydynt yn ddibynnol – Taflen Wybodaeth** | **9** |
| 4. | **Atodiad 3 Awgrymiadau o ran incwm, cynilion a gwariant** | **10 i 11** |
| 5. | **Atodiad 4 Grwpiau sy'n flaenoriaeth** | **12 i 13** |
| 6. | **Atodiad 5 Costau symud** | **14** |



© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

# FFRAMWAITH Y TALIADAU TAI YN ÔL DISGRESIWN (TTD)

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r fframwaith hwn yn nodi dull y cytunwyd arno o benderfynu pwy ddylai gael TTD. Ei nod yw cyflwyno dull mwy trefnus, cyson a thryloyw o wneud penderfyniadau dewisol. Fodd bynnag, ni fwriedir iddo bennu un ateb sy'n addas i bawb o gwbl. Mae'r elfen ddewisol yn dal i fod wrth wraidd y cynllun.

2. Caiff TTD eu talu o gyllideb gyfyngedig i helpu pobl i dalu costau tai, a hynny fel arfer pan fo swm y Budd-dal Tai (neu elfen dai'r Credyd Cynhwysol) y maent yn ei gael yn llai na'u rhent.

3. Nid oes modd gwneud taliad ym mhob achos pan fo'r budd-dal yn llai na'r rhent (ac ni fwriedir i hynny ddigwydd). Felly, mae'r fframwaith hwn yn fodd o helpu i bennu blaenoriaethau pan fo'r galw am y taliadau'n fwy na'r cyflenwad (gan mai dyna fydd y sefyllfa fel rheol).

## Y PRIF AMCANION

4. Wrth benderfynu ar y blaenoriaethau, ceir rhai amcanion cyffredinol:

- Sicrhau bod penderfyniadau mor deg a chyson â phosibl i bob ymgeisydd.
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i wella canlyniadau pobl.
- Gwario'r gyllideb a gwneud cyn lleied o newidiadau i'r blaenoriaethau yn ystod unrhyw flwyddyn benodol (gall fod angen gwneud hyn i osgoi gorwario neu danwario).
- Rhoi mwy o flaenoriaeth yn gyffredinol i:
  - o helpu'r rheini sy'n ymdrechu i'w helpu'u hunain;
  - o cynorthwyo'r rheini sydd wedi gwneud popeth y gallant i reoli'u sefyllfa ac nad yw'n realistig iddynt wneud unrhyw beth arall;
  - o atal canlyniadau negyddol fel digartrefedd sy'n debygol o greu mwy o galedi i'r aelwyd, yn ogystal â chostau ychwanegol y gellir eu hosgoi i'r cyngor.

## PENDERFYNU AR FLAENORIAETHAU

5. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, nid yw'n ddigonol dyfarnu arian i gategorïau bras o bobl (fel unig rieni a phobl anabl). Mae angen diffinio i ba rai o'r unigolion yn y categorïau hyn, ac mewn categorïau eraill, y dylid rhoi'r flaenoriaeth fwyaf fel rheol.

6. Isod, nodir y ffactorau hollbwysig wrth benderfynu ar y blaenoriaethau:

- Sefyllfa ariannol yr aelwyd;
- Y grŵp blaenoriaeth y mae'r aelwyd yn perthyn iddo;
- I ba raddau y mae aelodau'r aelwyd yn gallu rheoli'u sefyllfa, ac yn barod i wneud hynny, neu i ba raddau nad yw'n rhesymol disgwyl iddynt wneud mwy;
- Canlyniadau ariannol ehangach peidio â dyfarnu'r taliad.

Trafodir pob un o'r ffactorau hyn mewn mwy o fanylder yn y paragraffau nesaf.

### <u>Cam 1: Asesiad ariannol</u>

7. Ar gyfer pob cais, gwneir asesiad ariannol sy'n cymharu'r incwm â'r gwariant. Mae'r asesiad hwn mor syml â phosibl, ond mae'n ddigonol i sicrhau bod modd dod i farn resymol. Caiff yr holl incwm (ac eithrio Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol) a'r


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

holl wariant eu hystyried, ynghyd ag unrhyw gynilion/gyfalaf. Fel y nodir uchod nid yw Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol yn cael eu hystyried yn rhan o incwm y cais am TTD, gan fod y rhain i'w cael eu defnyddio i gwrdd ag anghenion anabledd yr ymgeisydd. Felly hefyd fe fydd swm cyffelyb i'r taliad Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, a Thaliadau Annibyniaeth yn cael ei dynnu allan o'r cyfrifiad o wariant wythnosol er mwyn adlewyrchu'r gwariant ar anabledd y mae'r incwm uchod yn berthnasol iddo. Fe fydd hyn yn cael ei wneud mor syml a bo modd ond yn ddigonol i wneud penderfyniad rhesymol. Fodd bynnag os yw'r gwariant gweithredol anabledd yn fwy na'r hyn sydd yn cael ei dalu drwy Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, neu Daliadau Annibyniaeth Bersonol, fe all cyfrifiad y gwariant gael ei amrywio i adlewyrchu'r gwariant ychwanegol - ar dderbyn datganiad manwl o'r gwariant priodol. Os oes unigolion nad ydynt yn ddibynnol yn byw ar yr aelwyd, caiff yr incwm y maent yn ei gyfrannu at yr aelwyd ei ystyried fel rheol yn yr asesiad ariannol, er ein bod yn sylweddoli y bydd yr aelwyd yn gwario mwy ar fwyd a gwres. (Gweler Atodiad 2 i gael mwy o eglurhad a manylion ynghylch unigolion nad ydynt yn ddibynnol.) Yr egwyddor sylfaenol yw y dylid helpu'r rheini nad oes unrhyw fodd arall iddynt ddiwallu'r angen.

8. Felly, pennu a yw holl ymrwymiadau'r aelwyd yn gyfartal â'i hincwm, neu'n fwy na'i hincwm, yw'r prawf cyntaf. Os oes incwm ar gael i dalu'r gwahaniaeth rhwng swm y budd-dal a'r rhent neu'r gofyniad tai arall, neu os oes modd sicrhau bod incwm ar gael, ni fydd y cais i gael TTD yn llwyddo oni bai fod y sefyllfa'n newid, neu hyd nes iddi newid.

9. Os oes rhywfaint o incwm ar gael, ond nad yw'n ddigon i dalu'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r budd-dal, caiff y cais i gael TTD ei brosesu. Os caiff y meini prawf eraill eu bodloni ac os penderfynir dyfarnu taliad, bydd yr incwm sydd ar gael yn cael ei dynnu o'r swm a ddyfernir.

10. Yn Atodiad 3, ceir rhestr arfaethedig o'r incwm, y cynilion a'r gwariant.

11. Sylwch nad oes angen i'r Cyngor gael gwybod am wariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol ac ni fydd yn ystyried gwariant o'r fath. Mae hyn yn cynnwys eitemau fel sigaréts, alcohol, bwyd tecawê, bwyta allan, mynd i'r sinema, coffi, aelodaeth o gampfa neu glwb chwaraeon, anrhegion. Serch hynny, gallech gynnwys yr eitemau hyn pan fyddwch yn rhestru'ch gwariant i'ch helpu i ddeall yr hyn yr ydych yn ei wario ar eitemau bach. Efallai nad yw'n ymddangos bod yr eitemau bach hyn yn draul ar eich cyllideb, ond gallech fod yn gwario cryn dipyn arnynt dros flwyddyn. Er enghraifft, yn aml bydd pobl yn canfod eu bod yn gwario £700.00 y flwyddyn os ydynt yn prynu coffi o gaffi'n rheolaidd.

**<u>Cam 2: Y grwpiau sy'n flaenoriaeth</u>**

12. Ar ôl cyflawni'r prawf ariannol, y cam nesaf yw penderfynu pa flaenoriaeth y dylid ei rhoi i sefyllfa benodol yr aelwyd. I sicrhau bod y broses mor syml â phosibl, caiff sefyllfaoedd penodol eu rhannu i bum grŵp, A-E, o'r flaenoriaeth uchaf i'r flaenoriaeth isaf. I weld y categorïau sy'n perthyn i bob grŵp, ewch i Atodiad 4.

**<u>Cam 3: Y gallu i reoli'r sefyllfa</u>**

13. Mae'r cam nesaf yn rhoi sylw i ystyriaethau cyffredinol. Yn aml, y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio TTD yw fel mesur dros dro tra mae aelwyd yn chwilio am ateb mwy hirdymor i ddatrys ei sefyllfa. Lle bo modd, rhoddir mwy o flaenoriaeth i'r rheini sy'n mynd ati i ddatrys y sefyllfa o'u rhan eu hunain. Er enghraifft, aelwydydd nad ydynt yn cael digon o Lwfans Tai Lleol sy'n chwilio am lety rhatach neu aelwydydd ag ystafelloedd sbâr sy'n trefnu i symud neu i gael lojer.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

14. Serch hynny, mae sefyllfaoedd yn codi'n gynyddol lle gall fod angen TTD am gyfnod hwy. Ni fydd yn realistig i rai aelwydydd ddatrys eu sefyllfa o'u rhan eu hunain. Er enghraifft, aelwyd sy'n cynnwys unigolyn ag anabledd difrifol nad yw'n gallu gweithio neu sy'n gosod ystafell i lojer ac sydd eisoes yn rheoli cyllideb yr aelwyd mor effeithiol â phosibl. Mae aelwydydd o'r fath hefyd yn cael mwy o flaenoriaeth.

15. Nid yw rhai aelwydydd yn eu helpu'u hunain yn y ffordd a ddisgrifir uchod ar hyn o bryd, ond maent yn barod i ddechrau gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, gellir pennu amodau wrth ddyfarnu TTD er mwyn iddynt gymryd camau penodol a gall y dyfarniad bara am gyfnod byrrach.

**Cam 4: Osgoi mwy o gostau (a chaledi)**

16. Gellir defnyddio TTD mewn ffordd greadigol i helpu i atal mwy o galedi, er enghraifft i atal aelwyd rhag cael ei throi allan, ac i atal y costau i'r cyngor sy'n gysylltiedig ag ymdrin â digartrefedd. Gallai aelwyd fod mewn perygl o golli'i thenantiaeth am sawl rheswm, ac ni fynegir unrhyw farn am y ffactorau sydd wedi arwain at y broblem. Unig ddiben y maen prawf hwn yw osgoi mwy o gostau a chaledi.

17. Fodd bynnag, nid yw'n debygol y bydd yn ymarferol talu TTD am gyfnod amhenodol mewn sefyllfa o'r fath. Os oes perygl y bydd aelwyd yn cael ei throi allan, ni ellir caniatáu i'r sefyllfa honno barhau am gyfnod amhenodol. Mae angen cael hyd i ateb, naill ai drwy ddarparu llety amgen neu drwy i'r aelwyd fynd ati i leihau'r ôl-ddyledion. Rhoddir y brif flaenoriaeth o dan y maen prawf hwn pan fydd ateb ar y gorwel.

**MATRICS PENNU BLAENORIAETH**

18. I helpu i benderfynu ar flaenoriaethau, lluniwyd matrics syml sy'n cyfuno'r grwpiau sy'n flaenoriaeth â'r ystyriaethau a amlinellir uchod. Mae pob ymgeisydd yn cael sgôr sylfaenol gan ddibynnu ar y grŵp blaenoriaeth, A-E, y mae'n perthyn iddo.

19. Yna, caiff pwyntiau ychwanegol eu dyfarnu gan ddibynnu ar y graddau y mae'r ystyriaethau cyffredinol (camau 3 a 4 uchod) yn cael eu bodloni.
Yn gyffredinol, rhoddir pwyntiau penodol i'r rheini:

a) sy'n mynd ati i geisio rheoli'u sefyllfa, neu
b) nad yw'n rhesymol iddynt wneud unrhyw beth arall i'w helpu'u hunain, neu
c) lle mae talu TTD yn atal costau eraill i'r cyngor (a chaledi i'r ymgeisydd), yn enwedig os oes ateb posibl ar gael.
d) Gellir dyfarnu llai o bwyntiau os yw'r ystyriaethau hyn yn cael eu bodloni'n rhannol.

Ni roddir unrhyw bwyntiau ychwanegol am fodloni mwy nag un ystyriaeth.

20. Bydd y matrics yn ddefnyddiol wrth ymdrin â'r rhan fwyaf o'r ceisiadau, ond bydd Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn mynd ati mewn ffordd hyblyg i ystyried achosion sydd tu hwnt i'r canllawiau, ond sy'n cyfiawnhau dyfarniad.

21. Yng Ngheredigion, caiff y matrics ei ddefnyddio mewn un o ddwy ffordd:

a) Yn ystod y cam asesu fel canllaw i benderfynu ar gais yn y lle cyntaf, neu


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

b) Fel rhestr wirio ar ôl gwneud penderfyniad i helpu i sicrhau bod y penderfyniadau mor gyson â phosibl.

22. Caiff TTD ei ddyfarnu os yw'r ymgeisydd yn bodloni'r lefel flaenoriaeth ofynnol ar sail y pwyntiau matrics a ddyfarnwyd. Anaml y bydd y ceisiadau sy'n flaenoriaeth isel neu'n flaenoriaeth isaf yn cael eu cymeradwyo.

## DYFARNIADAU AMODOL

23. Telir y rhan fwyaf o'r dyfarniadau i'r rheini sydd yn y grwpiau blaenoriaeth uchaf yn ddiamod, naill ai oherwydd nad yw'n debygol y bydd y sefyllfa sydd wedi arwain at wneud TTD yn newid yn y tymor byr, neu oherwydd bod yr aelwyd eisoes yn gwneud popeth posibl i reoli'i sefyllfa.

24. Mae o leiaf rywfaint o amodau ynghlwm wrth bob dyfarniad arall. Eu nod yw annog yr ymgeisydd i geisio gwneud iawn am y gwahaniaeth rhwng y budd-dal a'r rhent heb ddefnyddio TTD. Bydd hyd a lled yr amodau'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn rhai achosion, ni fydd yr amodau'n llym; mewn achosion eraill, byddant yn llym iawn. Mewn achosion penodol, cyfeirir yr aelwyd at asiantaethau cymorth a chyngor fel rhan o'r amodau.

## HYD Y DYFARNIAD

25. Mae perthynas agos rhwng hyd y dyfarniad a lefel yr amodau sydd ynghlwm wrtho. Os nad oes unrhyw amodau ynghlwm wrth y dyfarniad, h.y. angen mwy hirdymor, gellir gwneud dyfarniad am hyd at 52 wythnos (neu ragor mewn sefyllfaoedd eithriadol) oherwydd bod y sefyllfa sydd wedi arwain at ddyfarnu TTD yn annhebygol iawn o newid.
Mewn achosion eraill lle mae amodau wedi'u pennu, bydd y dyfarniad fel rheol yn para rhwng 6 a 26 wythnos, gan ddibynnu ar y cyfnod sydd ei angen i fodloni'r amodau. Nid oes cyfnod safonol wedi'i bennu ar gyfer unrhyw ddyfarniad.

## GWNEUD DYFARNIAD DRACHEFN / ESTYN DYFARNIAD

26. Yr amodau sydd ynghlwm wrth y dyfarniad yw'r brif ffactor wrth benderfynu a ddylid gwneud dyfarniad drachefn hefyd. Fel arfer, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar wneud dyfarniad drachefn os nad oes amodau wedi'u pennu. Mewn achosion o'r fath, gofynnir i'r ymgeisydd roi gwybod am unrhyw newid i'w sefyllfa yn hytrach na gofyn iddo lenwi ffurflen gais newydd.

27. Os oes amodau ynghlwm wrth y dyfarniad, bydd y dyfarniad fel rheol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod gwreiddiol. Os bydd yr ymgeisydd yn gwneud cais am ddyfarniad arall, dim ond os yw'r ymgeisydd yn bodloni amodau'r dyfarniad gwreiddiol y bydd dyfarniad arall yn cael ei wneud. Os gwneir dyfarniad arall, gall fod yn ddyfarniad rhannol (gweler paragraff 29).

28. Gellir estyn dyfarniad am gyfnod byr, heb fod angen gwneud cais newydd, o dan rai amgylchiadau:

- Pan fo gweithwyr cymorth wedi gwneud cais am reswm dilys;
- Wrth ddisgwyl i sefyllfa newid (e.e. symud tŷ, genedigaeth);
- Pan fo angen rhagor o amser i fodloni'r amodau sydd ynghlwm wrth y dyfarniad.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

**Dyfarniadau rhannol**

29. Fel arfer, telir y TTD ar ffurf swm wythnosol sy'n gwneud iawn am y gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai sy'n daladwy. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod yn fwy priodol gwneud dyfarniad rhannol. Gellir gwneud dyfarniad rhannol:

- Pan fydd rhywfaint o incwm ar gael i'r aelwyd (ond dim digon i dalu'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai), gan gynnwys sefyllfaoedd pan fydd mwy o incwm ar gael ar ôl talu dyledion;
- Pan fydd aelwyd yn cael amser i addasu'n raddol i sefyllfa newydd e.e. y cap ar fudd-daliadau;
- Pan na fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth ddyfarniad wedi'u bodloni;
- Yn ôl disgresiwn y Cyngor o dan rai amgylchiadau eraill (e.e. os yw'r rhent yn afresymol o uchel mewn achosion sy'n ymwneud â'r sector preifat).

**AMGYLCHIADAU'N NEWID**

30. Mae disgwyl i bob ymgeisydd roi gwybod os yw eu hamgylchiadau'n newid, fel y byddent yn ei wneud o ran y Budd-dal Tai. Mae'n arbennig o bwysig bod ymgeiswyr yn rhoi gwybod am newidiadau i'w hincwm, eu patrymau gwario a chyfansoddiad eu haelwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau y mae'r Cyngor yn cael gwybod amdanynt yn ymwneud â'r Budd-dal Tai yn y lle cyntaf, ond pan fydd TTD yn daladwy, maent fel rheol yn arwain at ganslo'r dyfarniad TTD. Gellir gwneud cais newydd ar ôl i hyn ddigwydd, os yw'n briodol.

31. Os bydd TTD wedi'i ordalu ar ôl i'r amgylchiadau newid, bydd rhaid ad-dalu'r gordaliad yn llwyr. Bydd y Cyngor yn anfon anfoneb at yr ymgeisydd neu at y sawl a oedd yn derbyn y taliad o dan rai amgylchiadau e.e. y landlord.

**CASGLIAD**

32. Ni fwriedir i'r fframwaith hwn lyffetheirio disgresiwn yr Awdurdodau Lleol pan fyddant yn penderfynu ar TTD. O dan gynllun dewisol, bydd achosion neilltuol neu anarferol yn codi a bydd y sawl sy'n penderfynu'n credu bod modd cyfiawnhau dyfarnu TTD. Mantais cynllun dewisol yw bod modd gwneud dyfarniadau o'r fath, pa bynnag fframwaith a ddefnyddir, a dylid gwneud dyfarniadau o'r fath.

33. Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn darparu strwythur i benderfynu i bwy y dylid dyfarnu TTD. Bwriedir iddo sicrhau tegwch a chysondeb rhesymol o fewn Ceredigion ac ar draws y cynghorau hynny sy'n mabwysiadu'r fframwaith.

34. Mae Atodiad 1 yn egluro pwy sy'n gymwys i gael TTD a'r broses o hawlio'r taliad, ynghyd â'r broses benderfynu a'r broses o ddatrys anghydfod.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## Pwy sy'n gymwys i gael TTD? **ATODIAD 1**

1. Gellir dyfarnu TTD dim ond os oes gan yr ymgeisydd hawl i gael:
   - Budd-dal Tai; neu
   - Gredyd Cynhwysol sy'n cynnwys elfen dai tuag at rwymedigaeth rhent; ac
   - Os oes angen rhagor o gymorth ariannol arno i dalu costau tai.

2. Pa fathau o ddiffygion y gall y TTD dalu amdanynt?
   - Gostyngiadau i'r Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol oherwydd cyfyngiadau ar y lwfans tai lleol.
   - Cyfyngiadau'r Swyddog Rhent fel rhenti cyfeirio lleol neu gyfradd ystafell a rennir.
   - Diffygion rhent o'r denantiaeth bresennol i atal aelwyd rhag bod yn ddigartref tra mae'r awdurdod tai'n pwyso a mesur opsiynau amgen.
   - Gostyngiadau oherwydd taprau incwm.
   - Didyniadau'r Budd-dal Tai ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol, neu gyfraniadau costau tai'r Credyd Cynhwysol.
   - Gostyngiadau i'r Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn y sector rhent cymdeithasol.
   - Gostyngiadau i'r Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol yn sgil rhoi'r cap ar fudd-daliadau ar waith.
   - O fis Awst 2015, gellir ystyried dyfarnu TTD i gynorthwyo aelwydydd i dalu blaendal, i dalu rhent ymlaen llaw ac i dalu costau symud. (Ewch i Atodiad 5 i gael mwy o fanylion am hawlio TTD i dalu'r costau hyn.)

3. Pa fathau o bethau na all y TTD dalu amdanynt?
   - Taliadau gwasanaeth nad ydynt yn gymwys neu daliadau dŵr.
   - Unrhyw gynnydd i'r rhent oherwydd ôl-ddyledion rhent.
   - Cosbau neu ostyngiadau i'r budd-daliadau.
   - Achosion pan fydd y Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol wedi'i atal dros dro.
   - Gostyngiad i'r Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol i hawlio gordaliad yn ôl.
   - Y gwahaniaeth rhwng gostyngiad y Dreth Gyngor a rhwymedigaeth y Dreth Gyngor.

## Y broses hawlio

4. Rhaid i'r sawl sy'n hawlio'r taliad neu'i gynrychiolydd gyflwyno cais ysgrifenedig i gael TTD gan ddefnyddio ffurflen ar-lein gymeradwy'r Cyngor. Gellir lawrlwytho fersiwn Word o'r ddogfen, ei llenwi'n electronig a'i hanfon fel atodiad i e-bost at revenues@ceredigion.gov.uk neu gellir mynd â'r ffurflen i un o'r swyddfeydd a nodir ar y ffurflen neu'i hanfon i un o'r swyddfeydd hynny.

5. Cafodd y ffurflen ei llunio i gasglu'r holl wybodaeth ofynnol ac mae llyfryn "Gwneud cais i gael Taliad Tai yn ôl Disgresiwn" ar gael ar-lein i roi cyfarwyddiadau i'r rheini sy'n llenwi'r ffurflen. Gall ymgeiswyr gael cymorth i lenwi'r ffurflen yn unrhyw un o swyddfeydd y cyngor a restrir yn y llyfryn neu ar y ffurflen.

6. Nid oes angen i'r Cyngor gael gwybod am wariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol ac ni fydd yn ystyried gwariant o'r fath. Mae hyn yn cynnwys eitemau fel sigaréts, alcohol, bwyd tecawê, bwyta allan, mynd i'r sinema, coffi, aelodaeth o gampfa neu glwb chwaraeon, anrhegion. Serch hynny, gallech gynnwys yr eitemau hyn pan fyddwch yn rhestru'ch gwariant i'ch helpu i ddeall yr hyn yr ydych yn ei wario ar eitemau bach. Efallai nad yw'n ymddangos bod yr eitemau bach hyn yn draul ar eich cyllideb, ond gallech fod yn gwario cryn dipyn arnynt dros flwyddyn. Er enghraifft, yn aml bydd pobl yn canfod eu bod yn gwario £700.00 y flwyddyn os ydynt yn prynu coffi o gaffi'n rheolaidd.

7. Efallai y bydd yr Adain Budd-daliadau'n gofyn am dystiolaeth resymol i ategu cais i gael TTD


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## Penderfyniadau

8. Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, bydd llythyr yn cael ei anfon at y sawl sy'n hawlio'r taliad neu'i gynrychiolydd ar unwaith.

9. Os bydd yr Adain Budd-daliadau wedi penderfynu peidio â dyfarnu TTD, bydd y llythyr hysbysu'n nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a hawl yr ymgeisydd i herio'r penderfyniad.

10. Os bydd TTD yn cael ei ddyfarnu, bydd y llythyr hysbysu'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn:-
    - Y dyddiad y bydd y dyfarniad yn dechrau.
    - Swm wythnosol y dyfarniad.
    - Am ba hyd y bydd y dyfarniad yn para.
    - Unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y dyfarniad.
    - Sut y caiff yr arian ei dalu.

## Herio penderfyniad

11. Nid taliadau Budd-dal Tai yw'r TTD ac felly nid yw'r hawl statudol i apelio i Wasanaeth y Tribiwnlysoedd yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae Ceredigion wedi cyflwyno'r drefn isod i ymdrin ag achosion pan fydd ymgeisydd neu'i gynrychiolydd am gael eglurhad neu am herio penderfyniad yr Adain Budd-daliadau ynghylch TTD.

    - Gall ymgeisydd neu'i gynrychiolydd ofyn i'r Adain Budd-daliadau **egluro** ei benderfyniad ar unrhyw adeg. Bydd y sawl sydd wedi penderfynu'n rhoi eglurhad ar lafar dros y ffôn neu'n ysgrifenedig.

    - Os bydd ymgeisydd neu'i gynrychiolydd yn anghytuno â phenderfyniad yr Adain Budd-daliadau, gall **herio'r** penderfyniad. Rhaid herio'r penderfyniad yn ysgrifenedig a rhaid i'r her ddod i law cyn pen mis ar ôl dyddiad y penderfyniad gan roi'r rhesymau dros herio'r penderfyniad ac unrhyw wybodaeth ychwanegol i ategu'r her. Efallai y bydd her sy'n dod i law fwy na mis ar ôl y penderfyniad yn cael ei hystyried os oes gan yr ymgeisydd resymau da dros fod yn hwyr yn herio'r penderfyniad.

    - Bydd unigolyn na fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol yn trafod unrhyw her. Bydd yr unigolyn hwn yn adolygu'r penderfyniad gwreiddiol a'r holl wybodaeth a thystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad hwnnw. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd os yw'n tybio bod hynny'n angenrheidiol. Bydd yr ymgeisydd neu'i gynrychiolydd yn cael gwybod am ganlyniad yr adolygiad hwn, yn ysgrifenedig, cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y daeth yr her i law'r Adain Budd-daliadau (neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny). Bydd y penderfyniad hwn yn derfynol ac yn rhwymo a dim ond drwy gyfrwng adolygiad barnwrol y bydd modd ei herio. Mewn achosion lle honnir bod y cyngor wedi camweinyddu, rhaid i'r ymgeisydd ddilyn trefn gwyno'r cyngor cyn cysylltu â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

Os na fydd ymgais i herio penderfyniad i beidio â dyfarnu TTD yn llwyddiannus, ni fydd yn atal yr ymgeisydd rhag gwneud cais arall yn y dyfodol os bydd ei amgylchiadau wedi newid.

### Twyll

Mae Cyngor Sir Ceredigion a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i drechu twyll o bob math. Os bydd ymgeisydd yn ceisio hawlio TTD mewn modd twyllodrus drwy gamddatgan ei amgylchiadau neu drwy roi datganiad neu dystiolaeth ffug i ategu'i gais, efallai y bydd wedi cyflawni trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006. Os honnir bod twyll o'r fath wedi'i gyflawni, neu os bydd y Cyngor yn amau y gall twyll o'r fath fod wedi'i gyflawni, bydd yn ymchwilio i'r mater. Os bydd yn canfod bod twyll wedi digwydd, bydd yn cymryd camau, gan gynnwys hawlio unrhyw arian a ordalwyd yn ôl ac, os yw'n briodol, erlyn yr unigolyn o dan sylw.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## TTD ac unigolion nad ydynt yn ddibynnol – Taflen wybodaeth

**Beth yw unigolyn nad yw'n ddibynnol?**

Oedolyn sy'n byw ar yr aelwyd ar sail anffurfiol yw unigolyn nad yw'n ddibynnol. Fel arfer, bydd yn fab, yn ferch, yn berthynas neu'n ffrind sy'n oedolyn.

**Sut mae unigolyn nad yw'n ddibynnol yn effeithio ar gais i gael TTD?**

I benderfynu a yw aelwyd yn gymwys i gael TTD, caiff treuliau'r aelwyd eu didynnu o incwm yr aelwyd i bennu a oes digon o arian yn weddill i dalu'r rhent.

Mae disgwyl y bydd unrhyw unigolyn nad yw'n ddibynnol sy'n byw yn y cartref yn cyfrannu at gostau'r aelwyd. Felly, bydd y cyngor yn cynnwys yn incwm yr ymgeisydd y swm y mae'n ei gael gan yr unigolyn nad yw'n ddibynnol neu swm y byddai'n 'rhesymol' i'r unigolyn hwnnw ei gyfrannu.

Pan gaiff treuliau'r aelwyd eu cyfrifo, bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi o'r ffaith bod unigolyn nad yw'n ddibynnol yn byw ar yr aelwyd yn cael eu cynnwys. Bydd y cyngor yn disgwyl i gostau'r aelwyd fod yn uwch gan fod unigolyn ychwanegol yn byw yno.

**Faint o arian y mae disgwyl i'r unigolyn nad yw'n ddibynnol ei gyfrannu?**

Fel rheol, mae'n rhesymol i'r unigolyn nad yw'n ddibynnol wneud cyfraniad teg at gostau'r aelwyd. Bydd angen i'r ymgeisydd roi gwybod i'r cyngor am y swm gwirioneddol y mae'r unigolyn nad yw'n ddibynnol yn ei gyfrannu at incwm yr aelwyd, ynghyd ag incwm wythnosol/misol gros yr unigolyn hwnnw.

Pan fydd yn cyfrifo incwm yr aelwyd, bydd y cyngor yn cynnwys fel incwm naill ai gyfraniad gwirioneddol yr unigolyn nad yw'n ddibynnol neu swm sy'n gyfwerth â didyniad perthnasol y Budd-dal Tai ar gyfer unigolyn nad yw'n ddibynnol, p'un bynnag sydd uchaf. Fodd bynnag, os yw'r unigolion nad ydynt yn ddibynnol wedi'u heithrio at ddibenion y Budd-dal Tai, dylid ystyried unrhyw gyfraniad gwirioneddol y gellir ei wneud.

Os defnyddir swm sy'n gyfwerth â didyniad perthnasol y Budd-dal Tai ar gyfer unigolyn nad yw'n ddibynnol wrth gyfrifo incwm yr aelwyd, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am hynny er mwyn iddo ofyn i'r unigolyn nad yw'n ddibynnol gyfrannu'r swm hwnnw. Os na all yr unigolyn gyfrannu'r swm hwnnw, dylai'r ymgeisydd roi gwybod i'r cyngor.

Os yw'r unigolyn nad yw'n ddibynnol yn ennill incwm gros sy'n ei roi yn y categori uchaf o ran didyniadau unigolion nad ydynt yn ddibynnol at ddibenion y Budd-dal Tai, bydd disgwyl bod ganddo ddigon o incwm i gyfrannu mwy at yr aelwyd ac felly i wneud iawn am unrhyw ddiffyg o ran rhent yr aelwyd. Mewn achosion o'r fath, ni fydd cais i gael TTD fel rheol yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, os yw'r amgylchiadau'n golygu nad yw hyn yn bosibl, bydd angen i'r ymgeisydd roi gwybod i'r cyngor.

**Beth sy'n digwydd os na all yr unigolyn nad yw'n ddibynnol dalu'r swm?**

Os bydd y cyngor yn cael gwybod na all yr unigolyn nad yw'n ddibynnol dalu'r swm y mae disgwyl iddo'i dalu, bydd y cyngor yn craffu'n fanylach ar sefyllfa ariannol yr unigolyn hwnnw ac yn pennu a yw'r swm gwirioneddol y mae'r unigolyn nad yw'n ddibynnol yn ei gyfrannu'n rhesymol o ystyried ei amgylchiadau.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## INCWM

Isod, rhestrir rhai enghreifftiau o incwm a gwariant. Nid yw'r rhestr yn gyflawn, ond mae'n rhoi syniad o'r hyn y dylech ei gynnwys.

| Incwm gwaith | Incwm budd-daliadau | Incwm arall |
|---|---|---|
| • Cyflog<br>• Incwm hunangyflogaeth (net)<br>• Incwm a enillir (net)<br>• Incwm a enillir gan eich partner (net)<br>• Tâl salwch<br>• Tâl mamolaeth<br>• Incwm arall a enillir | • Lwfans Ceisio Gwaith (cyfrannol a seiliedig ar incwm)<br>• Cymhorthdal Incwm<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (cyfrannol a seiliedig ar incwm)<br>• Credyd Pensiwn (credyd gwarant a chredyd cynilion)<br>• Budd-dal Plant<br>• Budd-dal Analluogrwydd<br>• Budd-dal Gweddw<br>• Lwfans Profedigaeth<br>• Lwfans Gofalwr<br>• Budd-daliadau eraill<br><br>**Er eu bod wedi'u rhestru ar y ffurflen, nid yw'r budd-daliadau anabledd isod yn cael eu hystyried fel incwm:**<br>• Lwfans Byw i'r Anabl (yr elfennau gofal a symudedd)<br>• Taliad Annibyniaeth Bersonol (yr elfennau bywyd bob dydd a symudedd)<br>• Lwfans Gweini | • Credydau Treth<br>• Credyd Treth Gwaith<br>• Credyd Treth Plant<br><br>• Pensiynau<br>• Pensiwn galwedigaethol<br>• Pensiwn galwedigaethol eich partner<br>• Pensiwn gwladol<br>• Pensiwn gwladol eich partner<br>• Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw<br><br>• Tâl Cynhaliaeth<br>• Incwm o unrhyw ffynhonnell arall<br>• Rhent gan lojer / tenant<br>• Cyfraniad gan unigolyn nad yw'n ddibynnol<br>• Incwm myfyriwr |

## CYNILION

Efallai bod modd i chi gael gafael ar gyfandaliad o gronfeydd eraill, er enghraifft;

- Cynilion / buddsoddiadau hygyrch
- Arian gan berthnasau neu ffrindiau
- Arian arall y gallwch chi gael gafael arno


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## GWARIANT

Dim ond awgrymiadau a geir yn y rhestr isod hefyd. Ceisiwch fod mor fanwl gywir â phosib ynghylch eich gwariant. O wneud hynny, bydd yn eich helpu chi a'r cyngor i weld sut rydych chi'n gwario'ch incwm.

| Costau tai | Gwasanaethau tai | Nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y cartref |
|---|---|---|
| • Rhent neu forgais (llai'r Budd-dal Tai)<br>• Y Dreth Gyngor (llai unrhyw gymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)<br>• Morgais<br>• Rhent tir<br>• Taliadau gwasanaeth<br>• Gwaddol | • Taliadau dŵr<br>• Tanwydd y cartref<br>• Nwy<br>• Trydan<br>• Tanwydd arall<br>• Yswiriant y cartref | • Teledu digidol / y rhyngrwyd<br>• Tanysgrifiadau e.e. Netflix, Ancestry, Amazon Prime, gwasanaethau cwmwl ac ati<br>• Trwydded deledu<br>• Ffôn<br>• Ffôn symudol<br>• Presgripsiynau<br>• Nwyddau ymolchi<br>• Papurau newydd / cylchgronau |

| Costau eraill yr aelwyd | Teithio | Dyledion |
|---|---|---|
| • Costau bwyd<br>• Prydau ysgol<br>• Dillad<br>• Costau gofal plant<br>• Taliadau pensiwn preifat<br>• Gwyliau<br>• Tâl Cynhaliaeth/CSA<br>• Babi (clytiau, bwyd babi ac ati)<br>• Gwariant ar anabledd | • Petrol<br>• Treth ac yswiriant y car<br>• Tocynnau trên<br>• Tocynnau bws<br>• Ffioedd tacsi<br>• Atgyweirio'r car | • Catalogau<br>• Cardiau credyd<br>• Hurbwrcas<br>• Dirwyon sy'n flaenoriaeth<br>• Dirwyon Llysoedd Ynadon<br>• Dyfarniad Llys Sirol<br>• Dyledion eraill<br>• Benthyciad diwrnod cyflog<br>• Benthyciadau eraill |

Nid oes angen i chi roi gwybod i'r Cyngor am wariant sydd ddim yn hanfodol, ac ni fydd y Cyngor yn ystyried gwariant o'r fath. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys pethau fel sigaréts, alcohol, bwyd tecawê, bwyta allan, sinema, coffi, aelodaeth o gampfa a chlybiau chwaraeon, anrhegion. Serch hynny, efallai y byddwch chi am gynnwys yr eitemau hyn pan fyddwch chi'n rhestru'ch gwariant i'ch helpu i ddeall eich cyllideb. Efallai nad yw'r eitemau bach hyn yn ymddangos fel pe baent yn draul ar eich cyllideb, ond gallech fod yn gwario cryn dipyn arnynt dros flwyddyn. Er enghraifft, bydd pobl yn aml yn darganfod eu bod yn gwario tua £700 y flwyddyn drwy brynu coffi o gaffi'n rheolaidd.


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## Grwpiau sy'n flaenoriaeth

| **<u>GRŴP A</u> –**<br>**Aelwydydd nad yw'n realistig iddynt wneud trefniadau amgen:-**<br>(Y brif flaenoriaeth – amgylchiadau eithriadol lle mae'n anodd symud neu lle mae rhwystrau difrifol yn atal yr ymgeisydd neu'i bartner rhag gwella'i sefyllfa ariannol.) |
|---|
| • Aelwydydd lle ceir tanfeddiannaeth ac anabledd lle mae addasiadau wedi'u gwneud neu lle mae'r cartref yn addas ar gyfer eu hanghenion. |
| • Dioddefwyr trais domestig / wedi symud oherwydd bygythiad o drais domestig mewn man arall. |
| • Aelwydydd sydd wedi symud oherwydd bod y plant yn cael eu bwlio / mewn perygl o fod o dan bwysau gan gangiau / camddefnyddio sylweddau. |
| • Unig rieni y mae'r cap ar fudd-daliadau'n berthnasol iddynt a chanddynt dri neu ragor o blant ac o leiaf un plentyn o dan bump oed. |
| • Pensiynwyr yn y sector rhent preifat y mae eu rhent wedi codi uwchlaw'r Lwfans Tai Lleol. |
| • Aelwydydd lle mae'r plant wedi'u symud i ofal maeth i'w diogelu ond lle ceir tystiolaeth y byddant yn dychwelyd. |
| • Achosion lle ceir rheswm meddygol difrifol dros gael ystafell wely ychwanegol wedi'i ategu gan farn feddygol. |
| • Ymgeiswyr a fyddai'n torri gorchymyn llys pe baent yn symud i eiddo llai. |
| • Aelwydydd lle mae rhywun yn feichiog (gan gynnwys llety a rennir neu danfeddiannaeth). |
| • Ymgeiswyr sy'n aros am ddyfarniad llys ynghylch cystodaeth plant. |
| • Ymgeiswyr â threfniant cystodaeth plant ar y cyd nad ydynt yn cael Budd-dal Plant ar gyfer y plant hynny. |

| **<u>GRŴP B</u> –**<br>**Aelwydydd lle mae'r ymgeisydd a/neu'r partner yn cynorthwyo aelodau eraill o'r aelwyd neu'n cael cymorth eu hunain a lle byddai symud yn peryglu'r cymorth hwnnw;_**<br>(Y prif grŵp blaenoriaeth ond un – pe baent yn symud, byddai'n effeithio'n andwyol ar lefel y cymorth / y math o gymorth a roddir.) |
|---|
| • Aelwydydd lle ceir tanfeddiannaeth gan ofalwr maeth nad yw wedi'i eithrio oherwydd ei amgylchiadau. |
| • Ymyrraeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. oedolyn dibynnol iawn/plant mewn perygl neu brosiect ymyriad teuluol. |
| • Aelwydydd sy'n gofalu amser llawn am aelod o'r teulu ac sy'n wynebu anawsterau / rhwystrau ychwanegol rhag ymuno â'r byd gwaith. |
| • Unig rieni y mae'r cap ar fudd-daliadau'n berthnasol iddynt a chanddynt un neu ddau o blant ac o leiaf un plentyn o dan bump oed. |
| • Aelwydydd lle mae pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr awdurdod lleol yn byw. |
| • Pobl a arferai fod yn ddigartref sy'n cael cymorth i ymgartrefu yn y gymuned. |
| • Aelwydydd lle ceir tanfeddiannaeth ond lle mae oedran plentyn yn golygu y bydd nifer yr ystafelloedd gwely'n cynyddu'n fuan. |
| • Mae tystiolaeth yn ategu'r ffaith na all plant rannu ystafell, lle mae cais am Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Bersonol wedi'i wneud neu'i wrthod, a bod disgwyl am ganlyniad apêl. |
| • Unigolion a leolwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl cyfnod o adsefydlu oherwydd eu bod yn gaeth i sylweddau a lle mae perygl y byddent yn llithro'n ôl i gamddefnyddio sylweddau pe baent yn byw mewn llety o faint addas. |
| • Gweithwyr sifft a fyddai mewn perygl o golli'u swydd pe baent yn symud. |
| • Aelwydydd lle mae babi o dan chwe mis oed yn byw. |


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

| **<u>GRŴP C</u> –**<br><br>**Aelwydydd lle mae rhwystrau personol/cymdeithasol byrdymor eithriadol rhag symud:-**<br>(Gellir mynd i'r afael â'r heriau drwy gymorth allanol ychwanegol gan y cyngor / ei bartneriaid neu gan drydydd parti, elusen neu'r sector gwirfoddol.) |
|---|
| • Pensiynwyr sydd wedi byw mewn ardal am gyfnod hir a fyddai'n ei chael hi'n anodd meithrin cysylltiadau i'w cynorthwyo mewn ardal newydd. |
| • Unigolion sy'n byw mewn ardal wledig a fyddai'n ei chael hi'n anodd symud neu gael gafael ar swydd yn lleol oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu gyfrifoldebau o'r fath. |
| • Unig rieni y mae'r cap ar fudd-daliadau'n berthnasol iddynt a chanddynt ddau neu ragor o blant dros bump oed. |
| • Aelwydydd na all Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gynnig llety amgen addas iddynt (fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006). |
| • Aelwydydd lle mae babi newydd sy'n iau na blwydd oed yn byw. |
| • Hawlwyr sengl o dan 35 oed a chanddynt blant sy'n aros gyda nhw o leiaf un noson yr wythnos ond nad ydynt yn cael Budd-dal Plant ar gyfer y plant. |

| **<u>GRŴP D</u> –**<br><br>**Aelwydydd y byddai symud yn effeithio ar eu gallu i barhau i weithio:-**<br>(Lle mae cyflogaeth/gwaith ychwanegol yn rhoi'r cyfle gorau iddynt wella'u sefyllfa ond lle mae perygl y byddai symud yn gwaethygu'u rhagolygon.) |
|---|
| • Aelwydydd y mae'r cap ar fudd-daliadau'n berthnasol iddynt lle mae plentyn/plant yn byw. |
| • Pobl sy'n gweithio mewn swyddi dros dro y gallai symud effeithio ar eu gallu i gael swyddi mwy sefydlog. |
| • Pobl sy'n byw gerllaw'u gweithleoedd oherwydd eu bod yn gweithio oriau anghymdeithasol / sifftiau rhanedig. |
| • Achosion lle byddai symud yn cynyddu'r costau teithio i'r graddau na fyddai'n hyfyw iddynt barhau i weithio. |
| • Achosion lle mae gan yr hawlydd / ei bartner blant ond lle nad ydynt yn cael Budd-dal Plant oherwydd y tybir eu bod yn byw gydag oedolyn arall. |

| **<u>GRŴP E</u> –**<br><br>**Aelwydydd heb ddigon o arian i dalu'r rhent a fyddai'n elwa o gael cymorth ariannol byrdymor:-** |
|---|
| • Aelwydydd nad ydynt yn perthyn i Grwpiau A-D heb ddigon o arian i dalu'r rhent yn sgil diwygio lles ac y mae angen iddynt gadw'u llety tra maen nhw'n gwneud trefniadau amgen. |


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL

## TTD i dalu costau symud (rhent ymlaen llaw, blaendal a chostau symud tŷ)

Dim ond os nad oes arian ar gael o unrhyw ffynhonnell arall y dylid gwneud cais i gael TTD i dalu costau symud e.e. benthyg arian gan aelod o'r teulu, undeb credyd, benthyciad cyllidebu, cynilion, disgwyl taliad rhent ymlaen llaw/blaendal yn ôl o eiddo blaenorol ac ati.

1. Rhaid bod gan yr ymgeisydd hawl i gael Budd-dal Tai/Credyd Cynhwysol ar yr adeg y gwneir y dyfarniad.

2. Nid budd-dal yw'r TTD ac ni ellir ei warantu.

3. Fel arfer, ni fydd cais i gael TTD i dalu costau symud yn llwyddiannus:

    - os yw'r cartref presennol yn addas ar gyfer gofynion y teulu;
    - os nad oes unrhyw resymau neilltuol dros symud;
    - os yw'n amlwg na fydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac y gallai'r aelwyd gael ei throi allan / bod yn ddigartref yn y dyfodol.

4. O ddyfarnu TTD i dalu costau symud, bydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy ac ni fydd angen parhau i ddarparu cymorth o dan y cynllun TTD.

5. Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno cais llwyddiannus, ni fyddwn fel rheol yn ystyried cais i gael TTD arall i dalu costau symud yn y dyfodol.

6. Bydd angen darparu holl fanylion cyswllt y darpar landlord neu asiant i sicrhau bod modd i'r cyngor geisio dod i gytundeb i hepgor y taliad rhent ymlaen llaw neu'r blaendal yn gyfnewid am dalu'r Budd-dal Tai'n uniongyrchol.

7. Os bydd cais i gael TTD i dalu rhent ymlaen llaw neu flaendal yn llwyddiannus, ni fydd ond modd talu'r arian yn uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant newydd.

8. Os gwneir cais i gael cymorth i dalu costau symud tŷ, bydd angen darparu'r hyn a ganlyn:

    - Os yw'r ymgeisydd neu'i deulu'n gallu symud y dodrefn ac ati, bydd angen darparu o leiaf dri dyfynbris ar gyfer hurio fan breifat i'r cyngor.
    - Os nad oes modd i'r ymgeisydd neu'i deulu symud y dodrefn ac ati oherwydd cyflwr meddygol, bydd angen darparu o leiaf dri dyfynbris gan gwmnïau symud tŷ i'r cyngor.

9. Rhaid cyflwyno cais i gael TTD i dalu costau symud gan ddefnyddio ffurflen gymeradwy ar-lein y Cyngor. Gellir lawrlwytho fersiwn Word o'r ddogfen hon i'w llenwi gan yr ymgeisydd (neu'i gynrychiolydd) a'r darpar landlord. Ar ôl llenwi'r ffurflen, gellir ei sganio a'i hanfon fel atodiad i e-bost at revenues@ceredigion.gov.uk neu gellir mynd â'r ffurflen, neu'i hanfon, i un o swyddfeydd y Cyngor yn Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, Llambed neu Landysul. Mae cyfeiriadau post llawn y swyddfeydd lleol a'u horiau agor ar gael ar wefan y Cyngor (dewiswch 'Preswyliwr', yna cliciwch ar y tab 'Cysylltwch â ni' (cornel de uchaf) a dewiswch 'Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid – Swyddfeydd Lleol').


© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD - CEDWIR POB HAWL